CERDD DDUWIOL

SEF,

ERFYNIAD, a GALWAD,

CYNGOR, ac ANNOGAETH;

I'R

CYMRU:

O BOB GRADDAU

UCHEL ac ISSEL.

I

Ymadel ag anuwioldeb a chwantau Bydol, a byw yn Sober ac yn Dduwiol, y Byd fydd yr awr hon.

A chafau pob rhith Drygioni, megis Twyll, Rhagrith, a phob rhith Duwioldeb; ac i rodio yn ôl rheol Gair Duw, trwy ffydd yn ei Fab ef JESU GRIST, yr hwn yw'r Ffordd, a'r Gwirionedd, a'r Bywyd.

Oi rhodiant yn ol y Rheol hon, Tangnefedd arnynt ac ar Israel Duw.

Caerfyrddin: Argraffwyd gan Ev. Powell yn *Heol y Prior*, tros *Tho. Williams* o Blwyf *Llanfihangel*. 1762.

1

Boneddigion mwyn pûr Gyffredin clywch wir,
Rhowch oſteg i'n Nheſlyn i nawr,
Hyn yma yw'r câs a'i oſod e ma's,
Waith gwel'd ein Pechodau mor fawr,
Mae 'n well i ni yſtyried tro gole i ni weled,
Cyn caffo hi gaued y Nos,
Pryd hynny ni ellir dim cwrdd a'r jawn Lwybyr,
Mae n ferten y ſethrir hi 'n groes.

2.

Yn groes i'r Gorchymynion rwi'n gweled gormoddion,
Oſodwys Duw yn union o'n blaen;
Yn rhwyſo mewn rhyfig, A balchder chwyddedig,
Yn ddigon ſiommedig eu Grân:
Yr gweud y mawr Gelwydd a'u bledio yn ddigwilydd,
A chablu Duw beunydd heb lai;
A gwatwar rhai Gwirion ſy'n well eu harferion,
Mae hynny'n ormoddion o fai.

3.

Am feiau a bâr ail *Sodom* fydd fiâr,
O ddiffig repentio mewn pryd,
Derfyfwn ni yn ebrwydd Drigaredd yr Arglwydd,
Rhag tripo mewn Tramgwydd i gyd,
Sy n addo rhoi Heddwch ond gwel'd Edifeirwch,
Am hynny meddyliwch heb ball,
Ymdrwſio mewn moddion i fynd tu a *Seion*,
Yn ail y Morwynion oedd gall.

4.

Call yw yſtyried waith gweld ein camſynied,
A hefyd Myfyried a 'mroi;
I beidio a dychwelyd, ynghyd a'n haflendid,
Rhag ofon mewn blin-fyd ym droi:
Callach yw Meddwl mae Gwagedd yw'r cwbwl,
Sydd yma dan Gwmmwl fel Niwl;
A ninnau mor ddwled nad i ni yn ei weled,
A'r fall wedi mynd an riwl.

5. Y

X205198901

5.

I rëol y Fâll fe 'n cwympwyd yn ddall,
Pan bwriwyd y ddau ddyn o'r Ardd,
Eu hepil fy byth yn aml a chwith,
A Dynion heb gym'ryd eu gwardd,
Ond blasu mewn plefer o Gyfoeth a Thrawsder,
Heb geisio mewn amser wellhad,
A'n llawn fryd a'n pwrpas gloddio fel *Demas*,
Heb gofio am Deyrnas DUW DAD.

6.

Duw Dâd dere'n fwynedd a dyro i'n Drugaredd,
A maddau'n Hanwiredd a'n chwant,
Cymhwyfa ni'n rhwyddlan i ddwad i'th Winllan,
Ag ymlid di Satan i bant:
Nawfeiddia bob Calon yn galed fy ynom,
I th dderbyn yn ffyddlon trwy ffŷdd,
I fod mewn gwir Gariad a'n Prynwr a'n Ceidwad,
Yw'r ffordd i ni ddwad yn rhŷdd.

7.

Yn rhydd Duw fy'n danfon yn fwynedd bob moddion
Gan gynnig i ddynion wellhâd,
Yn addo mor rhwyddlan os gantho fe ceifiant
Heb werth ac heb arian yn rhâd,
Eſaias fy'n giwrain bumthegfed a deigain,
A'r wers gynta, a'i darllen hi yn llawn,
A'r yftur mor gyrdo i'r hwn ac a gretto,
Gwir neſwn tu ag atto mewn dawn.

8.

Mewn Dawn y mae dwad os mynwn wir Gariad,
Ni wſnaeth dim dringad yn Draws;
Rhaid cerdded ffordd gywyr medd Geiriau'r Yſgrythur
I 'mofyn nês Llwybr nid haws:
Y rhai fydd yn gwyliad dros welydd i ddwad,
Fe fydd eu diweddiad hwy yn driſt,
A'u cyfri fel Lladron ger bron y Duw Cyfion,
Meddyliwn ni'n ffyddlon am GRIST.

9. CRIST

9.

Crist yw'r jawn Lwybyr os mynwn gael cyffyr,
Meddyliwch hyn hawyr bob rhai,
Mae ef yn gorfod cyn gwneuthur jawn gymod,
I ufed o waelod ein bai,
Ag etto mae Dynion yn ddigon afradlon,
Yn ail guro'r hoelion i'w gur,
Trwy rehe a llwon yn tyngu gwaed gwirion,
Yn waeth na'i *Juddewon* yn glir.

10

Yn Glîr os gofynnan pa Flwyddyn y rhifan,
Pan rheddwyd hyn allan a phwy?
Am oed Jesu fwyndeg mae dau cant ar bymtheg,
A thrugain y chwaneg a dwy:
Gwelwn yn hynod Ein Hoef-edd bron darfod,
Heb amau dan Amod difai,
Gweddiwn yn ddiwid am nerth Duw a'i-Yspryd,
Mae'n i gyfnewid bob rhai.

11.

I rhai os daw gofyn pwy ganodd hyn iddyn,
Rhowch ateb i'r weriu yn ffraeth,
Na wadwch mor pwrpas on d'wedwch yn addas,
Mae *Howel* Mab *Thomas* ai gwnaeth,
Swai'n Wyllys yn hollol fod pawb yn barodol,
Cyn clywed yn Seiniol ei cri,
I dd iffyn ddifrad nerth Duw a'i wir gariad,
A thyna 'nymuniad i chwi.

Diwedd.